**Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar nos Iau 20fed Chwefror 2025 am 7.30 pm yn Neuadd Bentref Ciliau Aeron**

**Yn bresennol:** y Cynghorydd Robert Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Michelle Davies, Nigel Davies, Helen Evans, Arwel Jones, Tina Jones, Alwen Thomas ac Iwan Thomas.
Cynghorydd Sir Marc Davies
Clerc, Denfer Morgan

**259 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Eirlys James-Evans am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**260 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo, fel rhai cywir, cofnodion o’r cyfarfod o’r Cyngor a gynhaliwyd ar 9fed Ionawr 2025.

**261 Materion Cyllidol**

**PENDERFYNWYD** talu’r canlynol:

Alun Thomas & John (Ffioedd Prynu Tir y Fynwent) - £2,414

**262 Ceisiadau am Gyfraniad Ariannol**

Rhoddwyd ystyriaeth i geisiadau am gymorth ariannol a **PHENDERFYNWYD** fel a ganlyn:

i) cyfrannu £100 i CFfI Felinfach a £50 i CFfI Ceredigion;
ii) gohirio cais Pwyllgor Pwll Nofio Aberaeron a’r Cylch er mwyn rhoi cyfle iddynt gyflwyno copi o’u cyfrifon diweddaraf; a
iii) gwahodd Adran yr Urdd Ciliau Aeron i wneud cais am gyfraniad ariannol.

**263 Materion Cynllunio**

Rhoddwyd ystyriaeth i gais cynllunio A250067 Gelligaer, Ciliau Aeron. *Proposed rear single storey extension & alterations.*

**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.

**264 Mynwent Eglwys y Drindod Sanctaidd, Cilcennin**

Derbyniwyd diweddariad gan y Clerc ar y broses o brynu’r tir a nodwyd fod y gwaith cyfreithiol yn mynd yn ei flaen.

**PENDERFYNWYD** awdurdodi’r Cadeirydd i arwyddo dogfen trosglwyddo’r tir pan gaiff ei gymeradwyo gan gyfreithiwr y Cyngor.

**265 Llenwi'r Lle Gwag ar y Cyngor**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r un cais a dderbyniwyd a **PHENDERFYNWYD** cyfethol Gary Evans fel Aelod o'r Cyngor ac i'w wahodd i gyfarfod mis Mawrth.

**266 Unrhyw Fater Arall**

Nodwyd y gwybodaeth a roddwyd gan y Cynghorydd Michelle Davies fod Cilcennin Cyntaf wedi derbyn grant o £330,000 ar gyfer prynu a datblygu hen Ysgol Cilcennin.

Nodwyd y gwybodaeth a roddwyd gan y Cynghorydd Helen Evans fod yna arwydd wedi ei godi ar ddechrau 'beech walk' er mwyn ceisio rhwystro cerbydau rhag ei ddefnyddio a chreu problemau lleol.

Cytunwyd trefnu sesiwn codi sbwriel yng Nghiliau Aeron.

Cytunwyd dwyn i sylw'r Cyngor Sir fod yr arwydd 20mya yn goleuo o hyd yng Nghiliau Aeron.

Cytunwyd gofyn i'r Aelodau ddechrau meddwl pa gyfyngiad cyflymdra fyddai'n addas ar gyfer Ciliau Aeron petai'r Cyngor Sir yn cynnal adolygiad ac i'w drafod yn y cyfarfod nesaf.

Daeth y cyfarfod i ben am 8:15pm